Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Canllawiau i Swyddogion Adrannau Cyngor yr Undeb

Taflen wybodaeth

Rhagfyr 2007

Cyngor yr Undeb

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn trefnu ei weithgarwch trwy Gyngor sy'n cynnwys chwech Adran. Mae pob Adran yn gyfrifol am agwedd arbennig o waith yr Undeb.

Adrannau'r Cyngor

1. Cyllid
2. Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang
3. Materion Teuluol
4. Yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth
5. Dinasyddiaeth Gristnogol
6. Addysg a Chyfathrebu

Aelodaeth

Gwahoddir pob un o'r 16 Cyfundeb (Cwrdd Chwarter) sydd gan yr Undeb yng Nghymru a Lloegr i anfon 3 cynrychiolydd i'r Cyngor. Yna, bydd y Gynhadledd yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn ethol 3 arall. Dyna gyfanswm o 51 o bobl.

Ychwaneger at hynny wedyn staff a swyddogion yr Undeb, ynghyd ag unrhyw arbenigwyr fydd wedi eu gwahodd i ddod yn aelodau, a cheir cyfanswm terfynol o tua 70 o bobl.

Swyddogion

Etholir Cadeirydd y Cyngor gan y Cyngor ei hunan. Mae'n gwasanaethu am dymor o 3 blynedd. Yn rhinwedd ei swydd, mae'n aelod o Bwyllgor Gweinyddol yr Undeb.

Y Cyngor sydd hefyd yn ethol swyddogion yr Adrannau. Er mai am dair blynedd y maent hwythau'n cael eu hethol, mae hawl gan y Cyngor i'w hail-ethol am 3 blynedd arall.

Cadeiryddion Adrannau

Cyfrifoldeb Cadeiryddion yr Adrannau yw llywio gweithgarwch eu Hadran. Wrth reswm, mae'r Cadeirydd yn cydweithio'n glos gydag Ysgrifennydd yr Adran ac yn rhannu yn llawer o'r tasgau y mae yr Ysgrifennydd yn eu cyflawni.

Disgwylir i Gadeiryddion Adrannau fod yn bresennol

1. yn holl gyfarfodydd eu Hadran
2. yn holl gyfarfodydd y Cyngor
3. mewn unrhyw gyfarfyddiad o'r Pwyllgor Gweinyddol
4. mewn unrhyw gyfarfyddiad o Fwrdd Hyfforddi yr Undeb a Choleg yr Annibynwyr Cymraeg
5. yn y Cyfarfodydd Blynyddol lle mae disgwyl iddynt gyflwyno adroddiad eu Hadran

Ysgrifenyddion yr Adrannau

Ysgrifenyddion yr Adrannau sy'n gyfrifol am y wedd weinyddol i weithgarwch eu Hadran. Atynt hwy y mae unrhyw ohebiaeth yn cael ei hanfon, a hwy, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd perthnasol, sy'n gyfrifol am sicrhau fod unrhyw benderfyniad sy'n cael ei basio gan yr Adran yn cael ei weithredu.

Yr Ysgrifenyddion sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd, hysbysu cynrychiolwyr, paratoi unrhyw ddogfennau ar gyfer y cyfarfod a sicrhau fod cofnodion yn cael eu cymryd ohono. Dylid anfon y deunydd allan o leiaf dair wythnos cyn y cyfarfod. Gall Tŷ John Penri gynorthwyo gyda labeli ar gyfer amlenni, a threfnu lleoliad addas a lluniaeth ar gyfer y cyfarfod, ond dim mwy na hynny. Telir y costau gan yr Undeb.

Fel gyda'r Cadeiryddion, mae disgwyl i Ysgrifenyddion Adrannau fod yn bresennol

1. yn holl gyfarfodydd eu Hadran
2. yn holl gyfarfodydd y Cyngor
3. yn y Cyfarfodydd Blynyddol

Cofnodion Adrannau

Os bydd Adran yn dymuno, gall ethol Cofnodydd.

Wedi cael gwirio'r cofnodion gan Gadeirydd ac Ysgrifennydd yr Adran, dylai'r Cofnodydd anfon copi ohonynt i'r Ysgrifennydd Gweinyddol yn Nhŷ John Penri. Os na fydd Cofnodydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Adran, dylid sicrhau fod dirprwy yn gwneud y cofnodion.

Aelodaeth

Mae pob aelod o'r Cyngor yn perthyn i ddwy Adran. Y Cyfundebau sy'n penderfynu i ba Adrannau y mae eu cynrychiolwyr hwy yn perthyn, a lleolir yr aelodau eraill yn dilyn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Mae pob aelod yn perthyn i un Adran o 1, 2 a 3 yn y tabl ar dudalen 1, ac un o 4, 5 a 6.

Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, dros gyfnodau o 24 awr ym misoedd Mawrth a Hydref, ac wedyn (yn fyr) ar ddechrau'r Cyfarfodydd Blynyddol ym mis Mehefin/Gorffennaf. Daeth yn arferiad i gynnal cyfarfod Mawrth a Hydref ar ddyddiau Gwener a Sadwrn ym mhlas Gregynog ym Mhowys. Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol:

2008: 14-15 Mawrth	31 Hydref-1 Tachwedd
2009: 13-14 Mawrth	I'w gyhoeddi
2010: 12-13 Mawrth	I'w gyhoeddi
2011: 11-12 Mawrth	I'w gyhoeddi
2012: 9-10 Mawrth	I'w gyhoeddi

Trefniant newydd yw fod y Cyngor yn cyfarfod yn mis Hydref, a'r nod yw rhoi cyfle i'r Adrannau wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Tra bo'r Undeb yn cwrdd â chostau Cyngor y Gwanwyn, y Cyfundebau fydd yn cwrdd â chostau Cyngor yr Hydref.

Disgwyliadau

Disgwylir i holl aelodau'r Cyngor fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd neu anfon ymddiheuriad. Erfynnir ar i unrhyw rai sy'n methu mwy nac un cyfarfod ystyried ildio eu lle i rywun arall fydd yn abl i fod yn bresennol. Hyd yn oed pan fo ymddiheuriad yn cael ei anfon, erfynnir am i ymdrech gael ei gwneud i sicrhau fod cynrychiolydd dros dro yn llenwi'r bwlch.

Cwestiynau

Os bydd unrhyw gwestiwn am y Cyngor neu am ei ddyletswyddau, dylid cysylltu ag un o swyddogion yr Undeb naill ai trwy e-bost (undeb@annibynwyr.org) neu ar y teleffon i Dŷ John Penri (01792-795888).